

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd yn rhithiol dros y system 'Zoom', Nos Fawrth, 21 Medi 2021 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. **Presennol:** Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Gareth Lloyd Jones, Peter Bridges – Talysarn; Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Dylan Herbert, Heledd Gwilym, Justin Davies, – Penygroes; Gwyndaf Roberts, O P Huws – Llanllyfni; Ffion Jones – Nantlle, Cynghorydd Craig ab Iago.

Ymddiheuriadau: Sian Dafydd – Talysarn. Hefina Roberts – Llanllyfni, Cynghorydd Judith Humphreys. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd - Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd ac estynwyd llongyfarchiadau i Peter a Greta ar enedigaeth Guto Nant a hefyd Sian ac Iwan ar enedigaeth Glain Medeni.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Neb yn datgan.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfodydd a oedd wedi eu cynnal** – Roedd 3 cyfarfod wedi eu cynnal sef 13 Gorffennaf (cyfarfod llawn) 4 Awst (cyfarfod golau nadolig), 31 Awst (cyfarfod llawn). Cynnigwyd gan Barry Bracegirdle ac eilwyd gan Ceri Owen fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - Cyfarfod 13 Gorffennaf – Holodd OP Huws lle roedd y Cyngor Cymuned arni yn dilyn o'r drafodaeth ynglŷn â ymgeisio i brynu yr Eglwys yn Talysarn. Roedd OP o'r farn fod hyn allan o afael y Cyngor Cymuned ac roedd Peter Bridges yn cytuno gyda hyn. Barry Bracegirdle eisiau nodi ei bod yn bwysig dweud fo'r cyngor yn fodlon cefnogi unrhyw brosiect llesol i'r ardal a fuasai yn digwydd yn yr Eglwys – pawb yn cytuno gyda hyn. Holodd Ceri Owen os oedd yna unrhyw ddiweddariad gyda symud y lloches bus o Benygroes i Dalysarn? Adroddodd Nia fod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu i ohirio tynnu y safle a'u bod am gysylltu pan fyddent yn gwybod pryd fydd hyn yn digwydd. Nododd OP fod Sian Dafydd wedi son y buasai yn holi pobl yr ardal o'u barn ynglŷn â chael y lloches yn Nhalysarn. Cynigiodd Peter efallai y buasai yn syniad cynnal arolwg barn (yr un fath a wnaethpwyd gyda'r man ail-gylchu). Roedd Peter yn fodlon cario ymlaen gyda hyn a cytunodd pawb.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** – Roedd pawb wedi derbyn yr adroddiadau ymlaen llaw er mwyn cael amser i edrych drostynt. Diolchwyd i Craig a Judith am eu gwaith. Bu i Gwyndaf Roberts ofyn os fuasai posib i Craig gyfeirio at Llanllyfni fel Llanllyfni a nid fel Llan, ac yn yr un modd rhoi enwau llawn pobl yr oedd yn ei drafod yn hytrach nag enwau cyntaf yn unig gan efallai na fuasai rhai yn ymwybodol o ble na pwy y buasai yn gyfeirio atynt. Ategodd Craig nad oedd problem gyda hyn ag y byddai yn siwr o gario hyn allan o hyn ymlaen. Nid oedd dim yn codi o adroddiad Judith Humphreys.

6. **a 7 - Taflen ariannol a Golau Nadolig** – Roedd pawb wedi derbyn copi o'r daflen ariannol cyn y cyfarfod i edrych drostynt. Diolchwyd i Gareth am ei waith yn edrych drostynt ag yn ateb unrhyw gwestiynau a oedd yn codi. Esboniodd Dafydd Thomas paham y penderfynwyd mai dim ond Penygroes fydd yn cael golau nadolig eleni. Esboniodd pwysigrwydd cadw oddi fewn i'r gyllideb a cadw oddi fewn beth sydd yn cael ei awgrymu gan Unllais i'w gadw wrth gefn. Aeth Gareth drwy y gyllideb ac esbonio ambell bwynt ond adroddodd fod popeth i weld yn iawn. Holodd Dafydd beth oedd yr awgrym o faint ddylid gael ei gadw wrth gefn, esboniwyd mai awgrym Unllais yw fod yna rhwng 3 a 6 mis o arian wrth gefn. Esboniodd Gareth fod y cyngor wedi trafod i gadw oddeutu £31,000 wrth gefn eleni ond edrych ar gadw mwy y flwyddyn nesaf er mwyn cadw o fewn y canllawiau. Holodd Dylan beth a oedd wedi bod yn digwydd yn y blynyddoedd cyn hyn ag a oedd y cyngor yn cadw at y canllawiau – oedd gan fod arian yn cael ei gadw wrth gefn ar gyfer y gwariant ym

Mynwent Macpela. Hefyd, holodd Dylan beth oedd oblygiadau gyda'r cyngor yn ceisio am grantiau a methu cael gan fod gormod o arian yn y banc – adroddodd Gareth fod hyn yn anodd i'w ateb, ond hefyd roedd yn ymwybodol nad oes grantiau yn aml iawn ar gael i gynghorau cymuned.

8. Materion Pentrefi - Penygroes – Barry yn adrodd fod y chwyn sydd yn tyfu ar ochr y strydoedd yn ofnadwy erbyn hyn, ond yn deallt erbyn hyn ei bod yn rhy hwyr i wneud unrhywbeth amdano, ond cynnigiodd y buasai yn syniad i Nia ddrafftio llythyr i Cyngor Gwynedd am hyn yn esbonio nad yw yn dderbynniol a bod pobl yn talu trethi ag yn disgwyl i waith fel hyn gael ei gario allan. Hefyd yn y llythyr angen tynnu sylw nad yw swyddogion yn ymateb i ebyst sydd yn cael ei gyrru atynt a dylid fod hyn ddim yn digwydd gan fod yna bolisi bod rhaid ymateb o fewn amser penodol. Cytunwyd i Nia ddrafftio llythyr a'i yrru i bawb edrych drosto (angen wedyn gyrru y llythyr at Brifweithredwr y Cyngor a hefyd cynnwys Catrin Wager i'w dderbyn). Gofynwyd i Nia gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd i ofyn wrthynt ddod i dorri y chwyn a'r drain sydd yn tyfu oddi ar y ffordd osgoi i cae Cwtin. Dylan yn siomedig iawn ynghylch y sefyllfa gyda'r man ail-gylchu a bod y cyngor wedi gwaredu ar safle heb gysylltu gyda neb i ddweud nag esbonio. Roedd addewid wedi cael ei roi gan swyddog y cyngor bod safle newydd am gael ei sefydlu yn yr Ystad Diwydiannol ond nid oes dim wedi dod o hyn. **Llanllyfni** – adroddodd Gwyndaf fod coed yn tyfu drosodd o'r cae chwarae i Lôn Ddŵr ag angen eu torri – Nia i gysylltu gyda'r adran yn y cyngor am hyn. Hefyd, adroddodd fod gylis angen eu glanhau ar ôl y torri gwair a rhagweld problemau pan ddaw y glaw. **Talysarn** – Gareth yn adrodd fod cyflwr y ffyrdd yn Talysarn yn gwaethygu ag yn ofnadwy erbyn hyn – adroddodd Nia ei bod wedi cysylltu gyda'r cyngor am hyn a'i bod wedi egluro fod yna gyfarfod ac y buasai yn ddiolchgar o ymateb cyn y cyfarfod ond hyd yn hyn nid oedd ymateb wedi ei dderbyn. Adrodd hefyd fod chwyn yn tyfu ar ochr y ffyrdd yn ofnadwy. Arwydd 30mya ar y ffordd fewn i'r pentref o gyfeiriad Penygroes wedi gwisgo ac angen ei adnewyddu. Adroddodd Peter fod pridd a gwair yn tyfu ar y ffordd ac yn blocio y draen wrth yr arwydd 30mya hwn. Gofynwyd i Nia gysylltu gyda yr adran llwybrau i'w atgoffa ynglyn a'r canglwm y soniwyd amdano peth amser yn nol. **Nantlle** – Ffion yn gofyn os oes posibil gofyn am arwydd 'Man troi yn unig' yn y arosfan (layby) ger Tai Nantlle gan fod pobl yn parcio yno sydd yn ei gwneud yn anodd i'r bobl sydd yn byw yno barcio a pasio drwodd. **Nebo** – Dafydd yn adrodd fod 'campervans' dal yn mynd at y llyn ond yn anffodus nid yw Dwr Cymru na'r Parc Cenedlaethol yn medru gwneud dim am hyn.

9. Problem parcio Talysarn - cafwyd cyfarfod ar 24 Awst gyda swyddog o Gyngor Gwynedd a aelod o Dorothea ynglyn a'r broblem yma. Adroddodd Dafydd fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod arwyddion ar y gylchfan ynghyd a llinellau melyn dwbwl – ond hyd yn hyn dim wedi digwydd. Adroddwyd fod perchnogion Dorothea wedi son am greu man parcio arall. Adroddodd Peter fod y polion ar gyfer y 'chevrons' wedi cael eu gosod. Penderfynwyd i gadw golwg ar y sefyllfa.

10. Diweddariad Grwp Parc Sglefrio/ Trac BMX Talysarn – Adroddodd Ffion ebost yr oedd Sian wedi ei yrru i bawb gael gwybod beth oedd yn mynd ymlaen. Enw newydd ar y parc nawr – 'RAMPS NANT'.

11. Clwb Ieuencid – penderfynwyd gohirio y mater hwn hyd nes cyfarfod mis Hydref pan y bydd Judith yn bresennol i'w drafod ymhellach.

12. Fandaliaeth yn Penygroes – Trafodwyd y mater a cynnigiodd Dafydd i Nia wahodd aelod o'r heddlu i gyfarfod ac hefyd yn y cyfamser os oes yna unrhyw fandaliaeth yn digwydd yna rhoi gwybod i Nia am unrhyw dystiolaeth er mwyn ei roi ymlaen i'r heddlu yn y cyfarfod. Eilwyd y cynnig hwn gan Barry a hefyd cynnigiodd Barry y dylid gwahodd y PCSO newydd i drafod hyn – cytunodd pawb.

13. Safle Ail-gylchu Penygroes – pawb yn siomedig iawn fod Cyngor Gwynedd wedi gwaredu a'r safle heb ymgynghori gyda'r Cyngor Cymuned i ddechrau ac teimlir fod hyn yn annerbyniol. Cynnigiodd Dafydd y dylid gyrru llythyr atynyt yn datgan y siomedigaeth yn dilyn holl waith caled y Cyngor Cymuned ac nad ydynt yn hapus gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd wedi delio gyda'r mater. Eilwyd hyn gan Dylan ac hefyd angen gyrru copi o'r llythyr i Sian Gwenllian, Plaid Cymru a Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd.

14. Cyflwr ffyrdd yr ardal – Adroddodd Nia ei bod eisioes wedi cysylltu gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd ynglŷn â hyn ac wedi gofyn am ymateb cyn y cyfarfod heno, ond heb dderbyn dim. Dafydd cynnig i Nia yrru eto a rhoi rhestr iddynt o'r ffyrdd a dal arnynt hyd nes cael ymateb. Eifion Terrace, Talysarn – holi i weld beth yw cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd o'r ffordd yma gan fod cwynion wedi eu derbyn am ei chyflwr.

15. Ardal Ni 2035 – Nia i gysylltu gyda Rhian George i gael dyddiadau i gyfarfod yn rhithiol ac hefyd ail-yrru yr ebost i bawb gael amser i feddwl am atebion i'r cwestiynau cyn cyfarfod.

16. Dorothea – Nia i gysylltu gyda nhw i ofyn am adroddiad o ddiweddariad er mwyn cael cyfle i weld a cael gwestiynau at eu gilydd cyn cynnal cyfarfod.

17. Ceisiadau Cynllunio –

- C21/0547/22/AC – Cytiau Cae Ffatri ger The Wollen Mill, Penygroes
- C21/0728/22/HY – Capel Y Groes, Penygroes
- C21/0836/22HY – Y Banc, Tŷ Iorwerth, Penygroes
- C21/0390/22/LL – Glan Gors, Llanllyfni
- C21/0700/22DT – Glaslyn, 1-2 Tai Nantlle, Nantlle
- C21/0898/22/AC – Tir tu ôl i Cochrdw House, Baptist Street, Penygroes

Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau uchod a dderbyniwyd.

- C21/0689/22/RA – Tir ger Maes Dulyn, Penygroes – Gwrthwynebwyd.

Gwrthwynebu i ryddhau yr amodau dan sylw. Cytunwyd pe bai cymal yr iaith

Gymraeg yn cael ei ddiddymu yna buasai yn rhwydd hyn i bethau uniaith saesneg gael eu gosod a enwau saesneg gael ei roi ar y stad a'r tai. Fel cyngor cymuned rydym o'r farn ei bod yn orfodol mai enw Cymraeg sydd yn cael ei roi ar y stad ag ar y tai oddi fewn iddi ac hefyd y dylai bob poster neu unrhyw arwyddion fod yn gymraeg neu o leiaf yn ddwyieithog gyda'r gymraeg yn cael blaenoriaeth.

Gwrthwynebwyd hefyd diddymu y cymal tai fforddiadwy gan y teimlir os y bydd hwn yn cael ei godi yna bydd yn rhoi hawl i'r tai gael ei gwerthu ar y farchnad agored sydd wedyn yn mynd yn groes i holl bwrpas codi y tai yn y cychwyn. Felly, mae Cyngor Cymuned Llanllyfni yn unfrydol yn gwrthod y cais hwn.

18. Gohebiaeth – Roedd pawb wedi derbyn copiau o'r gohebiaeth i edrych arnynt a rhoddwyd cyfle i godi unrhyw fater a oedd yn dod ohonynt. Gofynnodd Peter i gael bod yn ran o'r drafodaeth gyda'r Gymdeithas Hanes Teuluol gan y buasai hyn yn ddiddorol i blant yr ysgol.

19. Llwybrau a Mynwentydd – Contract torri mynwentydd a llwybrau yn dod i ben Mawrth 2022 felly angen cynnal is-bwyllgor i fynd drwy y contract a gweld os oes eisiau newid unrhyw beth cyn ei hysbysebu. Nia i yrru copi o'r contract i bawb gael edrych drosti ac yna trefnu cyfarfod o'r is-bwyllgor. Yn ystod y cyfarfod is-bwyllgor mi fydd hefyd angen trafod y contract pori cae Macpela a hefyd gwaredu ar coed celyn yn Fynwent Eglwys Sant Rhedyw.

20. Materion ariannol – cytunwyd i dalu.